# Mesuryddion deallus - beth maent yn ei olygu i gartrefi Prydain

**Taflen ffeithiau 101** 31.03.11 www.ofgem.gov.uk

**Gweledigaeth y llywodraeth yw i bob cartref ym Mhrydain gael mesurydd deallus. Bydd ei rhaglen weithredu yn cynnwys gosod dros 50 miliwn o fesuryddion newydd mewn 30 miliwn o gartrefi a busnesau dros gyfnod o saith mlynedd, ac yn arwain at newidiadau sylweddol o ran y ffordd rydym yn defnyddio ynni a'r ffordd y mae'r diwydiant ynni'n gweithredu.**

**Mae Ofgem wedi arwain cam dylunio cyntaf y rhaglen ar ran yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC). Mae DECC bellach wedi cymryd cyfrifoldeb uniongyrchol am reoli camau gweithredu'r rhaglen hon, a rôl Ofgem wrth fynd ymlaen fydd diogelu defnyddwyr drwy reoleiddio.**

## Pam fod y llywodraeth yn gwneud hyn?

Bydd mesuryddion deallus yn chwarae rôl bwysig wrth i Brydain newid i economi carbon isel, a byddant yn helpu i ymateb i'r her hirdymor o gael cyflenwad ynni cynaliadwy, fforddiadwy a sicr. Mae'r Llywodraeth yn amcangyfrif y bydd y fantais i Brydain dros £7.3 biliwn yn fwy na chost y rhaglen, sef £11.3 biliwn. Bydd buddiannau uniongyrchol i ddefnyddwyr a fydd yn gallu arbed ynni yn well a bydd gwelliannau o ran y ffordd y mae'r diwydiant ynni'n gweithredu o fudd anuniongyrchol iddynt hefyd.

## Beth yw mesurydd deallus a sut y bydd yn gweithio?

Mesurydd nwy neu drydan sy'n gallu cyfathrebu dwy ffordd yw mesurydd deallus. Mae'n mesur faint o ynni a ddefnyddir yn yr un modd â mesurydd traddodiadol, ond mae ganddo adnodd cyfathrebu sy'n ei gwneud yn bosibl i ddarllen data o bell a'i arddangos ar ddyfais yn y cartref, neu ei drosglwyddo'n allanol yn ddiogel. Hefyd gall y mesurydd dderbyn gwybodaeth o bell, ee er mwyn diweddaru gwybodaeth am dariff neu newid o ddull credyd i ddull rhagdalu.

Caiff y mesuryddion deallus a gyflwynir fel rhan o raglen y Llywodraeth eu darparu gyda dyfais arddangos yn y cartref (IHD). Bydd y ddyfais hon yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am faint o nwy a/neu drydan rydych wedi'i ddefnyddio mewn punnoedd a cheiniogau, ynghyd ag unedau ynni. Pan fydd eich mesurydd deallus a'ch dyfais arddangos yn cael eu gosod, byddwch yn cael gwybodaeth am y ffordd orau o ddefnyddio'r IHD.

## Sut y bydd hyn o fudd i mi?

Bydd defnyddwyr yn cael budd o wybodaeth well sy'n haws cael gafael arni. Bydd hyn yn ein helpu ni i gyd i ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon ac felly arbed arian. Hefyd bydd buddiannau o ran y modd y mae'r diwydiant ynni'n gweithredu. Bydd mesuryddion deallus yn dileu'r angen i ddarllen mesuryddion eich hun ac yn sicrhau biliau cywir. Bydd data gwell sy'n haws cael gafael arno hefyd yn gwella'r trefniadau i alluogi cwsmeriaid newid o un cyflenwr ynni i un arall.

Mae amcangyfrifon y Llywodraeth yn nodi y bydd modd arbed £23 y flwyddyn ar gyfartaledd erbyn 2020 ar filiau nwy a thrydan cyfunol - ond bydd rhai pobl yn arbed llawer mwy. Hefyd bydd gwelliannau nad ydynt yn ariannol o ran safonau gwasanaeth cwsmeriaid.

Yn ogystal, bydd mesuryddion deallus yn creu llwyfan i gefnogi gridiau deallus, a fydd yn helpu i reoli'r broses o gynhyrchu a dosbarthu ynni mewn modd mwy cost-effeithiol ac yn ei gwneud yn bosibl defnyddio mwy o ddulliau cynhyrchu carbon isel, fel ynni gwynt.

## A fydd mesuryddion deallus yn cysylltu â chynhyrchion deallus eraill?

Bydd yr IHDau yn cysylltu â'r mesurydd drwy rwydwaith lleol yn y cartref, y gellir hefyd ei gysylltu'n ddiogel â dyfeisiau eraill. Gallai hyn gynnwys dyfeisiau domestig sydd wedi'u cynllunio fel eu bod yn troi eu hunain ymlaen pan fo prisiau'n isel. Gallai hyn weithio gyda thariffau newydd sy'n amrywio yn ôl amser y dydd - i adlewyrchu'n fwy cywir y gost o gyflenwi ynni rhwng cyfnodau prysur a chyfnodau tawel. Hefyd bydd y rhwydwaith lleol yn eich galluogi i weld ac olrhain eich defnydd o ynni drwy gyfryngau eraill, megis drwy gyfrifiadur personol.

## Pryd fyddaf i'n cael fy mesurydd deallus a faint fydd yn ei gostio i mi?

Eich cyflenwr ynni fydd yn darparu eich mesurydd deallus ac IHD. Ni fydd tâl ymlaen llaw na thâl untro ar gyfer eu gosod - caiff y costau eu hadennill dros amser drwy eich biliau.

Bydd gan bob cyflenwr ynni ei gynlluniau ei hun ar gyfer cyflwyno mesuryddion deallus i'w gwsmeriaid - ond yn unol â chynigion y Llywodraeth, bydd rhaid i bob cyflenwr gwblhau'r broses gyflwyno yn 2019. O dan gynlluniau cyfredol, bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael eu mesuryddion newydd rhwng 2014 a 2019.

Ond efallai y byddwch yn cael cynnig un cyn hynny os bydd cyflenwyr yn dechrau defnyddio mesuryddion deallus pan ddaw'r amser iddo newid eich mesurydd presennol.

Disgwylir y bydd cyflenwyr ynni yn ymateb i alw cwsmeriaid am fesuryddion deallus - gan gynnwys drwy'r modd y maent yn cystadlu gyda'i gilydd. Os ydych yn awyddus i gael mesurydd deallus yn fuan yn ystod y broses gyflwyno, efallai y bydd angen i chi newid cyflenwr os nad yw eich cyflenwr presennol yn barod i osod un i chi.

## Sut y caiff defnyddwyr eu diogelu?

Mae mesuryddion deallus yn ddatblygiad cyffrous sy'n cynnig buddiannau posibl i ddefnyddwyr - ond byddant yn golygu newid mawr, ac mae'n bwysig bod defnyddwyr yn cael eu diogelu'n briodol yn ystod y newid, yn enwedig cwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus.

Dyma pam fod Ofgem yn cynnig atgyfnerthu dulliau presennol o ddiogelu defnyddwyr, a pham fod gan y Llywodraeth gynlluniau i wneud newidiadau pellach cyn y broses gyflwyno. Mae mesurau'n cynnwys cyflwyno cod ymarfer newydd ar gyfer gosod mesuryddion y mae'n rhaid i bob cyflenwr ynni gydymffurfio ag ef. Ymhlith pethau eraill, caiff hwn ei lunio i ddiogelu defnyddwyr rhag cynigion gwerthu a marchnata digroeso yn ystod yr ymweliad gosod.

Mae diogelu defnyddwyr yn ganolog i ddyluniad y mesuryddion a'r prosesau ar gyfer trin y data. Bydd y mesurydd y byddwch yn ei gael yn ystod y broses gyflwyno yn gweithio ar gyfer unrhyw gyflenwr ac ni fydd yn cyfyngu ar eich gallu i newid cyflenwr. Hefyd bydd eich mesurydd wedi'i ddylunio i fod yn ddiogel. Yn ogystal bydd rheoliad newydd i wneud yn siŵr y caiff preifatrwydd eich data ei ddiogelu'n briodol.

## Cwsmeriaid sydd mewn sefyllfa fregus a hygyrchedd

Mae anghenion pob grŵp o ddefnyddwyr hefyd yn cael eu hystyried wrth ddylunio mesuryddion deallus. Er enghraifft, wrth ddatblygu IDHau, gofynnir i gyflenwyr ymgorffori nodweddion i'w gwneud yn haws eu defnyddio, megis botymau mwy o faint sy'n hawdd i'w pwyso a thestun arddangos mwy o faint. Hefyd bydd dyfeisiau sy'n arddangos y data yn Gymraeg ar gael i'r rhai sydd eu heisiau. Byddant hefyd yn ystyried darparu gwybodaeth mewn ieithoedd a fformatau gwahanol, gan gynnwys braille.

## Sut y gallaf i gael rhagor o wybodaeth am fesuryddion deallus?

Ceir rhagor o wybodaeth am fanteision lleihau eich defnydd o ynni a'ch allyriadau carbon ar wefan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd: www.decc.gov.uk Bydd gan eich cyflenwr ynni wybodaeth hefyd.